## Cyfnod Allweddol 3

# Ymyraethau anhygoel

STROLIWCH A ROLIWCH
BIG WALK AND WHEEL

## Amcanion

Dysgu mwy am yr ymyriadau a all wneud teithio llesol yn fwy diogel ac yn fwy braf.

Gweld y cyfyngiadau a'r cyfleoedd y mae'n rhaid eu goresgyn er mwyn sicrhau newid.

## Cynllun sesiwn

**Gweithgaredd chwarae rôl**

Rhowch un o'r cardiau Senario Stryd ar bob bwrdd, ynghyd â set o gardiau Trymps Stryd (wedi'u torri'n gardiau unigol yn ddelfrydol).

Mae pob un o'r cardiau Trymps Stryd yn defnyddio system sgorio i ddangos ei nodweddion cadarnhaol a negyddol yn ogystal â'r gost.

Gofynnwch i bob grŵp ddod i flaen y dosbarth un ar y tro i gyflawni eu chwarae rôl Senario Stryd. Yna bydd gan y grwpiau eraill ychydig funudau i gynnig atebion i'r materion yn y senario.

Dylai'r ateb ystyried beth sydd orau i'r amgylchedd a'r bobl, ond mae hefyd yn bwysig iawn ei fod yn gyraeddadwy gyda'r gyllideb sydd ar gael.

Gofynnwch i'r disgyblion ddidoli'r cardiau Trymps Stryd yn dri phentwr yn dibynnu ar eu defnyddioldeb (ie, efallai, na) ac yna dewis 3-4 o'u cardiau mwyaf poblogaidd fel datrysiad i'w Senario Stryd.

Gyda'r dosbarth cyfan, trafodwch yr atebion y gwnaethon nhw eu cynnig a'r rhesymau cawsant eu dewis. Ailadroddwch hyn ar gyfer pob grŵp.

Mae yna amrywiaeth o weithgareddau eraill y gellir eu chwarae gyda'r Trymps Stryd (gweler y dudalen olaf).

**Addasiad ar gyfer dysgu o gartref:**

Yn hytrach na thrafod gyda'r grŵp pam eu bod wedi dewis datrysiad penodol i bob senario, gall disgyblion sy'n dysgu o bell ysgrifennu nodiadau i egluro eu dewis.

**Amser**
40 munud

**Adnoddau**
Cardiau Trymps 'Big Street Survey' Sustrans

Cardiau senarios strydoedd

**Gweithgaredd Unigol/Grŵp**
Y naill neu'r llall

Hefyd, mae [cwis Kahoot heddiw ar gael yma]

Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban). © Sustrans 2022

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

Cyfnod Allweddol 3

# Ymyraethau anhygoel

Taflen waith

## Cyfarwyddiadau (ystafell ddosbarth)

**Gweithgaredd chwarae rôl**

Mewn grwpiau fesul bwrdd, darllenwch y senario a rhannwch rolau yn deg ymhlith y grŵp.

Ymarferwch ddarllen trwy'r darn chwarae rôl gyda'ch grŵp ac yna, pan ddaw tro eich grŵp chi, dewch i'r blaen a'i ddarllen i'r dosbarth. Bydd y dosbarth yn gweithio mewn grwpiau i ddod o hyd i ateb i'r broblem maen nhw newydd ei chlywed.

Pan fyddwch wedi gwrando ar y chwarae rôl; trowch y cardiau Trymps Stryd wyneb i fyny wrth y ddesg a thrafod gyda'ch grŵp pa rai o'r Trymps Stryd fyddai orau ar gyfer y senario rydych chi newydd glywed amdani.

Didolwch y Trymps Stryd yn fras i dri phentwr cyfartal: un ar gyfer Na, un ar gyfer Efallai ac un ar gyfer Ie.

Ceisiwch gael 3-4 datrysiad pendant ar gyfer pob senario, ar ôl trafod fel grŵp. Sicrhewch fod barn pawb yn cael ei chlywed, hyd yn oed os nad ydych yn cytuno.

Trafodwch fel dosbarth y Trymps Stryd y mae eich grŵp wedi'i ddewis i ddatrys y broblem a pham.

---

## Cyfarwyddiadau (dysgu o bell)

Argraffwch a thorri'r cardiau Trymps Stryd allan. Neu efallai y byddai'n well gennych gael 12 darn o bapur ac ysgrifennu enw pob un o'r Trymps Stryd arno.

Darllenwch y senario a threuliwch ychydig o amser yn meddwl am y sefyllfa o safbwynt bob cymeriad. Ysgrifennwch yr hyn yr ydych chi'n meddwl yr hoffai pob cymeriad yn y darn chwarae rôl ei weld yn digwydd.

Edrychwch ar y Trymps Stryd ac ystyriwch pa rai o'r Trymps Stryd fyddai orau ar gyfer y senario a ddisgrifir.

Didolwch y Trymps Stryd yn fras i dri phentwr cyfartal: un ar gyfer Na, un ar gyfer Efallai ac un ar gyfer Ie.

Ceisiwch gael 3-4 datrysiad pendant ar gyfer pob senario. Ysgrifennwch un neu ddwy frawddeg ar gyfer pob senario, gan esbonio pam y gwnaethoch chi ddewis y Trymp Stryd hwnnw fel yr ateb.

Cyfnod Allweddol 3

# Senarios Stryd

## Senario Stryd 1

Mae gennych chi ysgol mewn cymdogaeth faestrefol gyfoethog. Mae stryd bengaead yn arwain at yr ysgol gyda phalmentydd bob ochr i ymyl glaswellt bach. Mae llawer o rieni (a rhai preswylwyr) yn parcio ar ymyl y palmant pan ddônt i ollwng eu plant.

**Rhiant 1:** “Mae gen i swydd brysur ac mae angen imi fedru parcio’n sydyn, felly rwy’n aml yn parcio ar ymyl y ffordd gul ger yr ysgol.”

**Plentyn 1:** “Mae’n ddychrynllyd iawn pan fo’r ceir, yn enwedig y rhai 4x4, yn tynnu drosodd ar y llwybr rwy’n cerdded ar ei hyd.”

**Plentyn 2:** “Rwy’n ei chael hi’n anodd iawn croesi’r ffordd rhwng yr holl geir sydd wedi parcio.”

**Pennaeth:** “Rydw i wedi siarad gyda’r rhieni sy’n parcio ar ymyl y ffordd ond maen nhw’n dweud mai dyma’r ffordd fwyaf diogel i ddanfon eu plant. Ond mae’r rhieni sy’n cerdded yn dweud ei fod yn beryglus! Mae’n anodd iawn cadw pawb yn hapus.”

**Cynghorydd:** “Mae’r ysgol wedi ysgrifennu ataf ynghylch y broblem, ac rwyf wir eisiau helpu, ond does gen i ddim arian i’w gynnig i helpu.”

## Senario Stryd 2

Mae’ch ysgol wedi’i lleoli wrth briffordd brysur ac mae gennych chi hebryngydd sy’n eich helpu i groesi’r ffordd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Mae yma derfyn cyflymder o 30 mya ac ni chaniateir i geir barcio y tu allan i’r ysgol ond yn aml maen nhw’n gwneud hynny.

**Rhiant 1:** “Mae’r ysgol ar briffordd brysur. Mae cyfyngder o 30 mya ond mae llawer o bobl yn ei anwybyddu, gan nad oes yna unrhyw beth i arafu’r ceir. Fe hoffwn i pe bai fy mhlant yn gallu beicio i’r ysgol, ond mae’n llawer rhy beryglus.”

**Plentyn 1:** “Rydw i ym mlwyddyn chwech nawr ac fe hoffwn fedru teithio i’r ysgol ar fy mhen fy hun, ond mae fy rhieni’n dweud ei bod yn rhy beryglus imi wneud y daith ar fy mhen fy hun.”

**Pennaeth:** “Mi fuasem ni wrth ein boddau’n gwneud rhywbeth i arafu’r ceir, a’i wneud yn fwy diogel i groesi’r ffordd, a theimlo’n well wrth gerdded ar y palmant ger y ffordd hefyd. Buasai’n arwain at lai o lygredd hefyd.”

**Rhiant 2:** “Mae hi mor anodd croesi’r ffordd pan fydda i’n codi fy mhlentyn o’r clwb ar ôl ysgol, nes fy mod i’n tueddu i yrru i’r ysgol i’w casglu erbyn hyn.”

**Plentyn 2:** “Dydw i ddim yn hoffi cerdded i’r ysgol, gan ei fod yn gwneud fy asthma’n waeth.”

**Cynghorydd:** “Rydym ni wedi gwneud popeth y gallwn i helpu, mae gennych chi hebryngydd croesi, beth arall allai fod ei angen arnoch chi? Mae yna lawer o bethau y mae angen inni wario ein harian arno, ac allwn ni ddim ei roi i gyd i’r ysgolion!”

## Cyfnod Allweddol 3

# Senarios Stryd

## Senario Stryd 3

Mae eich ysgol yng nghanol pentref bach ac mae un ffordd sy'n rhedeg trwyddo. Er ei bod yn dawel yn aml, gall fod yn brysur gyda phobl yn defnyddio llwybr byr i osgoi ffordd brysur.

Daw hanner y disgyblion o ystâd dai newydd sydd ar gyrion y pentref. Nid oes palmant yn ei gysylltu â'r pentref, felly mae'n rhaid i bobl gerdded ar y ffordd i gyrraedd yr ysgol – ac mae llawer yn gyrru'r siwrnai fer 300m hon.

**Rhiant 1:** "Fe symudais i'r ystâd dai newydd yn y pentref i geisio mwynhau bywyd yng nghefn gwlad, ond mae'n rhaid imi yrru fy mhlant i'r ysgol yn y pentref gan nad oes yna balmant."

**Plentyn 1:** "Fe alla i weld yr ysgol ar draws y cae o fy nhŷ, ac fe hoffwn yn fawr pe gallwn gerdded yn syth ar ei draws yn hytrach na gorfod cerdded ar hyd ymyl y ffordd."

**Pennaeth:** "Roedd pawb yn arfer cerdded i'r ysgol, ond ers i'r ystâd newydd gael ei adeiladu, mae llawer mwy o bobl yn gyrru gan nad oes palmant o'r ystâd i'r ysgol. Mae hyn yn ei wneud yn llai diogel i bawb."

**Cymudwr:** "Ydw, rwy'n gyrru drwy'r pentref ar fy ffordd i'r gwaith; mae'n llwybr byr gwych ac mae'n arbed dau funud i mi ar fy nhaith. Mae'n ffordd glir braf; pam na ddylwn i?"

**Plentyn 2:** "Oes yna unrhyw un allai ein helpu?"

**Cynghorydd:** "Rydym ni wedi clywed am y broblem ac mae gennym ni rywfaint o arian i dalu Sustrans i ddod i mewn a datrys y problemau, allwch chi helpu i ddweud wrthyn nhw'r hyn y mae ei angen arnoch?"

## Senario Stryd 4

Mae'ch ysgol yn cael ei hailadeiladu ar safle sydd 100m i lawr y ffordd o'r lle rydych chi ar hyn o bryd. Mae'r ysgol mewn ardal breswyl dawel, ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddisgybl yn beicio i'r ysgol ac ychydig iawn sy'n cerdded, er ei bod yn agos. Mae'r cyngor lleol wedi gofyn am eich help i ddylunio'r ardal o amgylch yr ysgol i gael mwy o gerdded a beicio.

**Rhiant 1:** "Y peth pwysicaf i mi yw bod fy mhlant yn cyrraedd yr ysgol yn ddiogel!"

**Plentyn 1:** "Rwy'n teimlo bod cerdded i'r ysgol yn eithaf araf a diflas, allwch chi ei wneud yn fwy diddorol i mi?"

**Pennaeth:** "Mae hon yn ysgol newydd, ac mae'n bwysig bod defnyddwyr eraill y ffordd yn gwybod ei bod yno!"

**Cymudwr:** "Mae bob amser yn brysur o gwmpas ysgolion, felly rwy'n ceisio eu hosgoi, yn enwedig os oes twmpathau cyflymder ar y ffordd hefyd."

**Plentyn 2:** "Rwy'n clywed y bydd cysgodfa feiciau yn yr ysgol newydd. Rwyf wir eisiau beicio yno. Rwy jest yn gobeithio bydd fy rhieni'n teimlo ei bod yn ddiogel imi wneud. Buasai'n well fyth pe bydden nhw'n gallu beicio yno gyda fi!"

## Cyfnod Allweddol 3

# Senarios Stryd

## Senario Stryd 5

Rydych chi'n byw ar ffordd bengaead dawel (cul-de-sac) ac mae nifer o'ch ffrindiau'n byw ar eich stryd hefyd. Hoffech i'r stryd fod yn well ichi chwarae arni a reidio eich beic arni, gan fod y parc agosaf bron i filltir i ffwrdd. Mae gan bob tŷ eu man parcio eu hunain, ond mae cryn dipyn o geir yn parcio ar yr ymylon ac ar y ffordd. Mae eich rhieni wedi dweud y gwnânt eich helpu i ysgrifennu cynllun a chodi rhywfaint o arian.

**Rhiant 1:** "Mi fuasai'n wych pe byddai ein plant yn gallu chwarae allan ar y stryd yn ddiogel, fel roedden ni'n ei wneud pan roedden ni'n blant; efallai y buasem ni'n gallu gau'r stryd bob hyn a hyn, neu efallai gael rhan ohoni ar gael iddyn nhw chwarae arni."

**Plentyn 1:** "Rwy jest eisiau chwarae allan gyda fy ffrindiau ond does yna ddim byd i'w wneud a dim llawer o le ar y palmentydd felly rydyn ni'n tueddu i aros yn y tŷ a chwarae gemau ar y cyfrifiadur."

**Rhiant 2:** "Rwyf eisiau i fy mhlant dreulio mwy o amser yn chwarae allan a bod yn egnïol, ond mae'r parc dros filltir i ffwrdd ac ni allwn ni fynd yno bob dydd."

**Preswylydd:** "Mae'n swnio fel syniad neis, ond beth os fydda i eisiau mynd i rywle a'r stryd yn llawn plant, neu beth fydd yn digwydd os byddan nhw'n crafu fy nghar!"

**Plentyn 2:** "Os cawn ni wneud rhywbeth am hyn, fe wnawn ni weithio'n galed iawn gyda'n gilydd a gyda'n rhieni i godi'r arian a gwireddu hyn."

**Cynghorydd:** "Rydym ni'n fodlon helpu ac fe wnawn ni roi arian cyfatebol i faint bynnag y gallwch chi ei godi hefyd."

## Senario Stryd 6

Mae eich ysgol ar ffordd unffordd gul mewn ardal siopa faestrefol boblogaidd, gyda llawer o siopau a chaffis neis. Mae yna lefydd parcio y tu allan i'r ysgol ond maen nhw'n llenwi'n eithaf cyflym, felly mae llawer o rieni yn aros y tu allan yn eu ceir. Gall hyn achosi i'r ffordd gael ei blocio a dydy llawer o bobl ddim yn diffodd eu peiriannau – gall fod yn annymunol anadlu'r mygdarth sy'n dod ohonyn nhw.

**Rhiant:** "Does dim digon o fannau parcio yma fel mae hi, felly rwy'n gorfod aros yn y car gyda'r injan yn rhedeg, er mwyn osgoi cael tocyn parcio."

**Plentyn 1:** "Roedden ni'n arfer gyrru i'r ysgol, ond roedd o hyd yn cymryd gymaint o amser, nawr rydyn ni'n parcio a rhodio ac mae'n llawer cynt."

**Person sy'n cadw siop:** "Dydw i ddim yn erbyn gwneud newidiadau i'r stryd, ond mi ydw i'n poeni y gallai ddychryn y siopwyr i ffwrdd."

**Plentyn 2:** "Weithiau, dydw i ddim yn gallu mynd allan yn ystod ein hamser chwarae gan ei fod yn gwneud fy asthma yn ofnadwy o ddrwg. Felly rwy'n aros yn yr ystafell ddosbarth, er mai'r hyn rydw i eisiau ei wneud yw mynd allan a chwarae pêl-droed gyda fy ffrindiau."

**Siopwr:** "Mae'n stryd mor braf i siopa arni, ond dydw i ddim yn mentro yma ar ddiwedd y diwrnod ysgol mwyach, gan fod cymaint o geir yn parcio ym mhobman yma."

**Cynghorydd:** "Mae gennym ni ychydig bach o arian, ac fe hoffem eich helpu, ond mae'n anodd oherwydd nid ydym ni eisio peri ypset i rieni a'r bobl sy'n cadw siopau yma."

## Cyfnod Allweddol 3

# Trymps Stryd



### Llwybrau beicio

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 10 |
| Car-gyfeillgar | 6 |
| Hwyliog | 7 |
| Cyflym a hawdd | 2 |
| Deniadol | 7 |
| Diogel | 9 |
| Cost | £££££ |

Mae'r rhain yn rhoi lle i bobl feicio'n ddiogel, ac yn annog mwy o bobl i feicio. Ond maen nhw'n cymryd lle ar y ffordd oddi wrth geir.



### Goleuadau traffig

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 7 |
| Car-gyfeillgar | 8 |
| Hwyliog | 2 |
| Cyflym a hawdd | 3 |
| Deniadol | 3 |
| Diogel | 8 |
| Cost | £££££ |

Mae'r rhain yn gorfodi traffig i stopio a chaniatáu i bobl groesi'n ddiogel. Mae pobl yn eu deall, ond nid ydynt bob amser wedi'u gosod yn y lleoliadau sy'n gyfleus inni.



### Culhau ffyrdd

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 8 |
| Car-gyfeillgar | 5 |
| Hwyliog | 4 |
| Cyflym a hawdd | 4 |
| Deniadol | 6 |
| Diogel | 8 |
| Cost | £££ |

Mae ffyrdd mwy cul yn golygu mwy o le i bobl ar y palmant. Rhaid i draffig fynd yn arafach, un car ar y tro, gan wneud pethau'n fwy diogel.



### Parciau chwarae ar y stryd

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 9 |
| Car-gyfeillgar | 4 |
| Hwyliog | 10 |
| Cyflym a hawdd | 2 |
| Deniadol | 9 |
| Diogel | 9 |
| Cost | £££ |

Mae'r rhain yn agor y stryd i bobl chwarae. Weithiau mae traffig yn cael pasio o hyd, ond mae'n mynd yn arafach oherwydd bod gyrwyr yn gwybod bod plant o gwmpas.

Sustrans yw'r elusen sy'n ei gwneud yn haws i bobl gerdded a beicio. Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban).
Ffotograffau: J Bewley/photojb, heblaw Llwybrau beicio: Jason Falconer/Sustrans

# Cyfnod Allweddol 3

# Trymps Stryd




## Cau strydoedd

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 10 |
| Car-gyfeillgar | 0 |
| Hwyliog | 10 |
| Cyflym a hawdd | 7 |
| Deniadol | 8 |
| Diogel | 10 |
| Cost | £ |

Mae cau strydoedd i geir dros dro yn golygu y galli di chwarae'n ddiogel, neu gael parti stryd. Gall hyn helpu pobl i feithrin ymdeimlad o gymuned.



## Gwahardd parcio ar y palmant

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 7 |
| Car-gyfeillgar | 7 |
| Hwyliog | 3 |
| Cyflym a hawdd | 8 |
| Deniadol | 3 |
| Diogel | 9 |
| Cost | £ |

Mae hyn yn creu mwy o le ar y palmant, ac yn arbennig yn helpu pobl gyda chadeiriau olwyn, cymhorthion symudedd neu fygis. Ond mae rhai gyrwyr yn poeni y gallai eu ceir gael eu taro.



## Meinciau

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 9 |
| Car-gyfeillgar | 5 |
| Hwyliog | 7 |
| Cyflym a hawdd | 7 |
| Deniadol | 9 |
| Diogel | 8 |
| Cost | ££ |

Mae meinciau'n cynnig lle diogel i eistedd, gan annog pobl i dreulio mwy o amser ar y stryd. Mae rhai pobl o'r farn eu bod yn annog ymddygiad gwrthgymdeithasol.



## Croesfannau sebra

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 6 |
| Car-gyfeillgar | 8 |
| Hwyliog | 3 |
| Cyflym a hawdd | 4 |
| Deniadol | 6 |
| Diogel | 7 |
| Cost | ££££ |

Mae'r rhain yn rhoi lle diogel i groesi'r ffordd. Nid oes rhaid i geir stopio bob amser, fel goleuadau traffig, ond rhaid iddynt stopio pan fydd rhywun yn aros i groesi.

Sustrans yw'r elusen sy'n ei gwneud yn haws i bobl gerdded a beicio. Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban).
Ffotograffau: Sustrans, heblaw Croesfannau sebra: Chris Foster; Meinciau: Dover District Council

Cyfnod Allweddol 3

# Trymps Stryd



## Coed

Cyfeillgar i gerdded/beicio ............. 8
Car-gyfeillgar ................................ 7
Hwyliog ......................................... 7
Cyflym a hawdd ............................ 8
Deniadol ...................................... 10
Diogel ........................................... 8
Cost .............................................. £

Mae coed yn creu rhwystr naturiol i draffig, ond maen nhw'n gallu mynd yn wyllt a chreu rhwystrau os na chânt eu rheoli. Weithiau mae gwreiddiau'n cracio'r palmant a'r ffordd, sy'n ei gwneud yn anodd i gerddwyr a beicwyr.



## Arwyddion ffyrdd

Cyfeillgar i gerdded/beicio ............. 5
Car-gyfeillgar ................................ 9
Hwyliog ......................................... 2
Cyflym a hawdd ............................ 7
Deniadol ........................................ 4
Diogel ........................................... 5
Cost ............................................ ££

Mae'r rhain yn dweud wrth yrwyr sut i ymddwyn. Ond maen nhw mor gyffredin, mae gyrwyr weithiau'n eu hanwybyddu. Nid yw arwyddion o reidrwydd yn newid ymddygiad heb bethau eraill fel twmpathau cyflymder.



## Croesfannau teigr

Cyfeillgar i gerdded/beicio ............. 8
Car-gyfeillgar ................................ 7
Hwyliog ......................................... 8
Cyflym a hawdd ............................ 6
Deniadol ........................................ 8
Diogel ........................................... 8
Cost ............................................ ££

Mae'n bosibl gwneud croesfannau sebra yn fwy diddorol a hwyliog. Mae traffig yn aml yn mynd yn arafach oherwydd ei fod yn wahanol, gan ei gwneud yn fwy diogel yn gyffredinol.



## Rhwystrau gosod

Cyfeillgar i gerdded/beicio ............. 8
Car-gyfeillgar ................................ 6
Hwyliog ......................................... 3
Cyflym a hawdd ............................ 5
Deniadol ........................................ 6
Diogel ........................................... 7
Cost ............................................ ££

Mae'r rhain yn creu troadau yn y ffordd sy'n arafu traffig. Yn aml, dim ond un car all fynd drwyddynt ar y tro, gan ei gwneud hyd yn oed yn fwy diogel i bawb.

Sustrans yw'r elusen sy'n ei gwneud yn haws i bobl gerdded a beicio. Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban).
Fffotograffau: Sustrans, heblaw Arwyddion ffyrdd: Chandra Prasad/Sustrans

Cyfnod Allweddol 3

# Trymps Stryd

sustrans STROLIWCH A ROLIWCH BIG WALK AND WHEEL



## Planwyr

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 9 |
| Car-gyfeillgar | 6 |
| Hwyliog | 7 |
| Cyflym a hawdd | 8 |
| Deniadol | 9 |
| Diogel | 9 |
| Cost | ££ |

Mae'r rhain yn gwneud stryd yn fwy naturiol. Gellir eu defnyddio ochr yn ochr â therfynau 20mya i arafu traffig a gwneud y stryd yn fwy diddorol.



## Twmpathau cyflymder

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 7 |
| Car-gyfeillgar | 5 |
| Hwyliog | 3 |
| Cyflym a hawdd | 3 |
| Deniadol | 4 |
| Diogel | 8 |
| Cost | ££££ |

Mae'r rhain yn arafu traffig oherwydd bod gyrwyr cerbydau'n teimlo'r twmpathau wrth yrru drostynt. Mae rhai gyrwyr yn meddwl bod twmpathau yn gwneud drwg i'w ceir, ond mae hyn oherwydd eu bod yn gyrru'n rhy gyflym drostyn nhw.




## Strydoedd unffordd

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 7 |
| Car-gyfeillgar | 6 |
| Hwyliog | 3 |
| Cyflym a hawdd | 3 |
| Deniadol | 5 |
| Diogel | 7 |
| Cost | £££ |

Trwy wneud strydoedd yn unffordd, mae'n bosibl gwneud lle i bethau eraill, fel llwybrau beicio a phalmentydd mwy. Dim ond i un cyfeiriad y mae angen edrych cyn croesi'r ffordd, gan ei gwneud hi'n haws ac yn fwy diogel.



## Estyniadau palmant ar gorneli

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 9 |
| Car-gyfeillgar | 7 |
| Hwyliog | 4 |
| Cyflym a hawdd | 3 |
| Deniadol | 8 |
| Diogel | 8 |
| Cost | £££ |

Mae'r rhain yn atal gyrwyr rhag torri ar draws corneli a chyflymu rownd troadau, gan fod yn rhaid iddynt arafu. Mae mwy o le i gerddwyr, sy'n gallu gweld a chael eu gweld yn well.

Sustrans yw'r elusen sy'n ei gwneud yn haws i bobl gerdded a beicio. Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban).
Ffotograffau: Sustrans

# Cyfnod Allweddol 3

# Trymps Stryd




## Celf stryd

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 8 |
| Car-gyfeillgar | 8 |
| Hwyliog | 9 |
| Cyflym a hawdd | 10 |
| Deniadol | 9 |
| Diogel | 7 |
| Cost | £ |

Gall hyn fywiogi'r stryd, ychwanegu lliw, a dangos hunaniaeth ardal leol. Gellir ei ddefnyddio i gyfleu neges. Ond mae rhai pobl o'r farn ei fod yn wrthgymdeithasol ac yn flêr.



## "Parklets"

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 8 |
| Car-gyfeillgar | 3 |
| Hwyliog | 9 |
| Cyflym a hawdd | 9 |
| Deniadol | 8 |
| Diogel | 8 |
| Cost | £ |

Mae'r rhain yn troi lle parcio ceir yn fan y gall pobl ei fwynhau. Gallai gynnwys seddi, a gardd fach. Ond byddai'n well gan rai pobl ddefnyddio'r lle i barcio eu ceir.




## Parthau 20mya

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 9 |
| Car-gyfeillgar | 7 |
| Hwyliog | 6 |
| Cyflym a hawdd | 4 |
| Deniadol | 5 |
| Diogel | 9 |
| Cost | ££££ |

Pe bai traffig yn symud ar gyflymdra o 20mya, fe fyddai llai o ddamweiniau, a rheiny'n llai difrifol. Ond mae rhai pobl o'r farn bod gyrwyr yn cael eu temtio i fynd yn gyflymach, ac nad yw pobl mor wyliadwrus.



## Paentio'r stryd

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 8 |
| Car-gyfeillgar | 8 |
| Hwyliog | 10 |
| Cyflym a hawdd | 9 |
| Deniadol | 10 |
| Diogel | 8 |
| Cost | £ |

Mae paentio stryd yn gwneud iddi edrych yn ddiddorol. Gall y broses gynnwys trigolion lleol, gan greu ymdeimlad o gymuned. Fodd bynnag, gydag amser gall fynd i ddechrau edrych yn hen ac yn flêr.

Sustrans yw'r elusen sy'n ei gwneud yn haws i bobl gerdded a beicio. Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban).
Ffotograffau: Sustrans, heblaw "Parklets": Paola Spivach; Parthau 20mya: J Bewley/photojb

## Cyfnod Allweddol 3

# Trymps Stryd



## Mannau parcio beiciau

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 10 |
| Car-gyfeillgar | 5 |
| Hwyliog | 7 |
| Cyflym a hawdd | 9 |
| Deniadol | 8 |
| Diogel | 7 |
| Cost | £ |

Mae'r rhain yn rhoi lle i barcio beiciau, sy'n dangos croeso i feicwyr. Mae pobl ar feiciau'n fwy tebygol o ymweld, ac felly'n fwy tebygol o wario eu harian yn y siopau lleol.



## Camerâu cyflymder

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 6 |
| Car-gyfeillgar | 4 |
| Hwyliog | 0 |
| Cyflym a hawdd | 4 |
| Deniadol | 1 |
| Diogel | 7 |
| Cost | ££££ |

Mae gyrwyr yn gwybod bod yn rhaid iddynt arafu wrth gamerâu er mwyn osgoi dirwy. Mae rhai pobl o'r farn fod hyn yn ei gwneud yn llai diogel gan fod gyrwyr yn arafu a chyflymu eto.



## Hidlyddion

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 9 |
| Car-gyfeillgar | 5 |
| Hwyliog | 7 |
| Cyflym a hawdd | 7 |
| Deniadol | 9 |
| Diogel | 9 |
| Cost | ££ |

Defnyddir hidlyddion i gau strydoedd i geir, ond gall beiciau a cherddwyr fynd trwyddynt o hyd. Mae hyn yn gwneud lleoedd yn fwy dymunol ac yn atal pobl rhag gyrru trwyddynt.



## Ynysoedd traffig

| | |
|---|---|
| Cyfeillgar i gerdded/beicio | 6 |
| Car-gyfeillgar | 8 |
| Hwyliog | 2 |
| Cyflym a hawdd | 3 |
| Deniadol | 5 |
| Diogel | 7 |
| Cost | £££ |

Mae'r rhain yn ei gwneud hi'n haws croesi'r ffordd oherwydd gellir stopio'n ddiogel yn y canol. Mae'n culhau'r lôn, sy'n arafu traffig. Fodd bynnag, gallai beicwyr gael eu gwasgu allan gan yrwyr.

Sustrans yw'r elusen sy'n ei gwneud yn haws i bobl gerdded a beicio. Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban).
Ffotograffau: Sustrans, heblaw Mannau parcio beiciau: Chris Foster; Camerâu cyflymder: Andrew Dunn, www.andrewdunnphoto.com; Hidlyddion: J Bewley/photoj

Cyfnod Allweddol 3

# Ymyraethau anhygoel

## Gweithgareddau eraill i'w gwneud gyda Trymps Stryd

Ffynhonnell: www.sustrans.org.uk/campaigns/outside-in/outside-in-week-4/outside-in-week-4-challenge/tu-fas-tu-fewn-sustrans-her-wythnos-4

Gêm gardiau ar thema cerdded a beicio lle gallwch chi ddylunio'ch cymdogaeth eich hun.

Gallwch chi gwblhau'r gweithgareddau tasg neu ddefnyddio'r cardiau i chwarae eich gêm trymps eich hun.

**Bydd angen y canlynol arnoch:** Argraffwch y gêm gardiau Trymps Stryd. Gallwch lynu'r papur i gardbord i wneud i'r cardiau bara'n hirach.

---

**Gweithgaredd 1:** Mae eich cyngor lleol eisiau ichi greu cynllun sy'n gyfeillgar i gerdded / beicio ar gyfer yr ardal o amgylch eich tŷ.

Dewiswch bum cerdyn lle mae'r sgôr 'cyfeillgar i gerdded / beicio' yn adio i roi sgôr o fwy na 40.

Rydych chi'n darganfod mai dim ond sgôr 'cost' o chwech sydd gennych i'w wario i gyd (££££££). Oes angen i chi newid eich syniadau? A fydd eich cynllun yn well neu'n waeth?

**Gweithgaredd 2:** Crëwch gynllun sy'n gyfeillgar i gerdded / beicio ac yn gyfeillgar i geir.

Dewiswch bum cerdyn lle mae'r sgôr 'cyfeillgar i gerdded / beicio' a'r sgôr 'cyfeillgar i geir' ill dau yn adio i roi sgôr o i 35 yr un.

A yw'r cynllun cystal â'r cynllun cerdded / beicio yn unig yng Ngweithgaredd 1?

**Gweithgaredd 3:** Y cynllun nesaf yw gwneud eich stryd mor ddiogel â phosibl.

Dyluniwch gynllun trwy ddewis pedwar cerdyn lle mae'r sgôr 'diogelwch' yn 9 neu 10. Pa un rydych chi'n ei ddewis?

**Gweithgaredd 4:** Allwch chi wneud rhywbeth yn gyflym, yn hawdd AC yn rhad?

Dewiswch bedwar cerdyn lle mae'r sgôr 'cyflym a hawdd i'w wneud' yn adio i 25 neu fwy, a'r gost yn ddim mwy na sgôr 'cost' o bump (£££££).

**Gweithgaredd 5:** Beth yw'r sgôr 'hwyl' mwyaf y gallwch chi ei gael?

Dewiswch bum cerdyn gyda ffactor 'hwyl' sy'n adio i roi sgôr o 35 neu fwy.

**Gweithgaredd 6:** Gwnewch eich stryd mor ddeniadol â phosib.

Pa bum cerdyn fyddech chi'n eu dewis sydd â gwerth 'atyniadol' yn adio i roi sgôr o 35 neu fwy?

**Gweithgaredd 7:** Dewiswch y pum cerdyn gorau a fyddai'n gwneud y cynllun gorau ar gyfer eich cymdogaeth. Gofynnwch i oedolyn ddewis ei gynllun delfrydol.

Dewch i gael sgwrs am y gwahaniaethau a pham mae pob un ohonoch chi'n meddwl y byddai'ch un chi yn well. Pwy all argyhoeddi'r llall mai eu cynllun yw'r gorau?

**Gweithgaredd 8:** Nawr, ewch ati i chwarae gêm o trymps.